# Deilliannau Dysgu/Learning Outcomes

## Deilliannau Dysgu Lefel Uwch (wedi'u mapio yn unol â'r Deilliannau ar gyfer Graddedigion)

**Deilliannau Gwyddoniaeth**

H1. Disgrifio adeiledd a swyddogaeth y cefn a'r asgwrn cefn (22a)
H2. Amlinellu anatomeg swyddogaethol a ffisioleg madruddyn y cefn a'r nerfau perifferol (22a)
H3. Disgrifio perthynas anatomegol madruddyn y cefn a gwreiddiau'r nerfau perifferol â'r asgwrn cefn (22a)
H4. Esbonio'r gwahaniaeth rhwng briwiau ar y niwronau echddygol uchaf ac isaf (22a, 22b)
H5. Esbonio'r mecanweithiau patholegol sy'n gyfrifol am ddatblygiad poen cefn (22a, 22b)
H6. Disgrifio nodweddion achosion meddygol arwyddocaol poen cefn yn yr oedolyn a'r plentyn (symptomau ac arwyddion baner goch) gan gynnwys clefyd metastatig, haint yr asgwrn cefn, trawma i'r asgwrn cefn a syndrom cauda equina (15 22a 22b)
H7. Amlinellwch ffisioleg iechyd esgyrn (22a)
H8. Disgrifio epidemioleg poen cefn ac absenoldeb o'r gwaith yn gysylltiedig â salwch (25a 25c 25d 25e 25j)
H9. Cymhwyso gwybodaeth am yr agweddau cymdeithasol ar salwch cronig i ddeall profiadau cleifion o boen cefn, ac i arferion clinigol ynghylch gwybodaeth, cymorth ac atgyfeirio (9c 10b 20a 25a)

**Deilliannau Ymarfer**

H10. Cynnal archwiliad niwrolegol perifferol o'r breichiau a'r coesau (14b)
H11. Cynnal archwiliad o'r asgwrn cefn (14b)

**Deilliannau ymddygiad proffesiynol**

H12. Disgrifio fframwaith cyfreithiol gwaith ac afiechyd, a phrosesau tystysgrifau salwch ac anabledd (4)

**Rhifedd a meddygaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth**

NUM. Dangos cymhwysedd wrth gyfrifiannu, dadansoddi a dehongli data rhifol, data meddygol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a data ffisiolegol.